# Cynllunio wrth Gefn
# Cwestiynau ac Atebion

**1. (a) Os yw ein canolfan ar gau oherwydd, er enghraifft, amodau tywydd gwael, a oes modd gwneud trefniadau amgen ar gyfer ymgeiswyr arholiadau i sefyll eu harholiadau mewn canolfannau sy'n fwy hygyrch?**

Oes. Gellir defnyddio lleoliadau amgen, cyhyd â bod eich trefniadau â'r ganolfan arall yn sicrhau y cynhelir yr arholiadau'n briodol ar gyfer yr ymgeiswyr yr effeithir arnynt (gweler 'Gwybodaeth Gyffredinol' isod).

**(b) Dan amgylchiadau o'r fath, a oes modd gwneud trefniadau amgen ar gyfer ymgeiswyr i sefyll eu harholiadau mewn safle sydd ddim yn ganolfannau arholiadau fel arfer (e.e. canolfannau hamdden/neuaddau cymunedol)?**

Oes. Gellir defnyddio lleoliadau amgen o'r fath, cyhyd â'ch bod yn gallu sicrhau y cynhelir yr arholiadau'n briodol ar gyfer yr ymgeiswyr yr effeithir arnynt (gweler 'Gwybodaeth Gyffredinol' isod).

**2. Os yw ein canolfan ar gau pan fydd arholiadau wedi'u hamserlennu, ac nad ydym wedi gallu gwneud trefniadau amgen, neu fod ein canolfan ar agor ond nad yw rhai ymgeiswyr yn gallu ei chyrraedd oherwydd, er enghraifft, amodau teithio anodd neu beryglus, beth ddylem ei wneud?**

Os oes gennych ymgeiswyr sydd ddim yn gallu sefyll yr arholiad a'u bod wedi'u cofrestru ar gyfer unedau arholiad annherfynol sydd ar gael mewn cyfresi arholiadau dilynol, dylech eu cofrestru ar gyfer y gyfres nesaf sydd ar gael.

Lle mae ymgeiswyr o'r fath wedi'u cofrestru ar gyfer arholiadau terfynol, gellir gwneud ceisiadau am Ystyriaeth Arbennig, cyhyd â'ch bod yn bodloni'r gofynion lleiaf (gweler y meini prawf a gyhoeddwyd yn nogfen y CGC 'Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol').

Gall Swyddogion Arholiadau wneud cais am Ystyriaeth Arbennig o'r fath, gan ddefnyddio'r system ar-lein berthnasol, sydd ar gael drwy wefan ddiogel y Ganolfan.

**3. Os oes gennyf ymholiadau pellach am drefniadau arholiadau, gyda phwy ddylwn i gysylltu?**

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)

Cysylltwch â'r adran TGAU ar tgau@cbac.co.uk, yr adran TAG ar tag@cbac.co.uk neu'r adran Llwybrau ar llwybrau@cbac.co.uk.

4. **Os oes gennyf ymholiadau am y trefniadau cofrestru, gyda phwy ddylwn i gysylltu?**

Cysylltwch â'r adran Gofrestriadau ar cofrestru@cbac.co.uk

**5. Rydym yn cynnal ein harholiadau, ond rwy'n poeni y bydd ymgeiswyr yn hwyr. Beth yw'r trefniadau yn yr achos hwnnw?**

Dilynwch y drefn cyrraedd yn hwyr safonol yn yr achos hwn - gweler dogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau.

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)